Gosod cyfyngiadau prisiau ar gyfer 2005-10: Fframwaith a dulliau

Crynodeb gweithredol

Y mae'r crynodeb hwn yn gyflwyniad i'n dogfen ymgynghorol, 'Gosod cyfyngiadau prisiau ar gyfer 2005-10: fframwaith a dulliau'.

Am fanylion pellach gallwch weld y ddogfen gyfan ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk neu gallwch gael copi caled yn rhad ac am ddim o lyfrgell Ofwat. Cysylltwch ag enquiries@ofwat.gsi.gov.uk neu ffoniwch: 0121 625 1373.

Bydd y crynodeb hwn ar gael hefyd yn Gymraeg ar y wefan.

Gwahodwn eich sylwadau ar y pynciau a godwyd ac ar ein cynigion am y dyfodol. Dylid eu nodi yn glir 'Gosod cyfyngiadau prisiau ar gyfer 2005-10: Fframwaith a dulliau' a'u hanfon erbyn 14 Ionawr 2003 fan bellaf at:

Victoria Botcherby
Uwch Ddadansoddwr
Tîm Croes-adrannol
Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Neu drwy e-bost at victoria.botcherby@ofwat.gsi.gov.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y ddogfen hon, byddwch gystal a chysylltu â Victoria Botcherby ar 0121 625 3620.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion a'n casgliadau ym Mawrth 2003. Lleolir ymatebion yn ein llyfrgell. Nodwch eich ymateb yn eglur os ydych am iddo gael ei drin yn gyfrinachol.

15 Hydref 2002

Rhagair

Yn 2004 byddwn yn gosod cyfyngiadau prisiau am y cyfnod 2005-06 hyd 2009-10. Y mae'r papur hwn yn egluro ein dull arfaethedig.

Ymgynghoriad yw hwn ac yr ydym yn chwilio am sylwadau ysgrifenedig dros y tri mis nesaf. Byddwn yn cynnal gweithdai yn ystod mis Tachwedd i gynrychiolwyr gwahoddedig yr holl grwpiau â diddordeb. Byddwn hefyd yn ymgynghori yn y dyfodol agos ynghylch y wybodaeth y bwriadwn ei gasglu oddi wrth gwmnïau i gefnogi adolygiad prisiau 2004. Byddwn yn cyhoeddi ein casgliadau ar y ddau ymgynghoriad ym mis Mawrth 2003.

Ein rhan yw gosod cyfyngiadau prisiau sydd yn galluogi pob cwmni i gyflawni'r gwasanaethau a ddisgwylir ganddo mewn modd cynaliadwy ac effeithlon. Dyma ein trydydd adolygiad cyfnodol, a'r pedwerydd gwaith y gosodwyd cyfyngiadau prisiau ar gyfer pob cwmni dŵr. Y mae ein dull yn ddatblygiad o'r modd y gosodwyd cyfyngiadau prisiau yn adolygiadau 1994 a 1999. Y mae cysondeb yn bwysig wrth leihau ansicrwydd diangen. Felly, fe fyddwn ni, fel y rheolyddion gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn parhau i ddefnyddio'r model cyfyngu prisiau a seilwyd ar anogaeth, sef RPI-X. Fel ag yn yr adolygiadau blaenorol, ni fydd yn hawdd cloriannu'r holl flaenoriaethau gwrthdrawiadol a gyflwynwyd i ni wrth osod y cyfyngiadau prisiau hyn.

Ein nôd yw cynnal yr adolygiad hwn yn agored. Bydd yr ymchwil ar y cyd gyda'r cwmnïau, LlafarDŵr , y Llywodraeth, Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rheolyddion ansawdd a grwpiau â diddordeb amgylcheddol yn ein cynorthwyo i ddeall safbwyntiau a blaenoriaethau ein cwsmeriaid yn well.

Byddwn yn gosod cyfyngiadau prisiau a fydd yn caniatau i gwmni effeithlon redeg ei fusnes ac i gwrdd â gofynion allanol ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Er mwyn gwneud hynny byddwn yn darparu ar gyfer cynhaliaeth cyfalafol; diogelwch materion cyflenwad; gofynion oddi wrth y Llywodraeth i wella ansawdd dŵr amgylcheddol a dŵr yfed; a materion gwasanaeth i gwsmeriaid megis yr angen i leihau'r niferoedd o dai dan berygl o orlifiad carthffosydd. Byddwn yn ystyried newidiadau hysbys yng nghostau'r cwmnïau, megis y rhai yn deillio o newidiadau mewn deddfwriaeth ac mewn trethi canolog a lleol. Byddwn yn ystyried y cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ymhellach.

Y mae gofyn i'r cwmnïau ariannu buddsoddiad newydd o fynonellau allanol. Bydd yn bwysig i osod cyfyngiadau prisiau sydd yn galluogi cwmnïau effeithlon i gwrdd â disgwyliadau rhesymol darparwyr cyfalaf. Byddwn yn parhau i asesu'r ffactorau sydd yn effeithio ar gost ariannu. Yn benodol yr ydym yn cynnal astudiaethau i'n

cynorthwyo i osod cost priodol cyfalaf. Yr ydym hefyd, ar ôl ymgynghori, wedi penderfynu newid trwyddedau'r cwmnïau fel bo'r cyfnod byrraf o roi rhybudd terfyniad yn 25 blwyddyn yn hytrach na 10. Drwy gynnig mwy o sicrwydd, dylai hyn fod o gymorth i wasgu ar gost cyfalaf.

Anelwn at wneud penderfyniad ar un pwnc cyn mis Tachwedd 2004. Un o ganlyniadau'r gyfundrefn adolygiad pob pum mlynedd yw cafnau yn y rhaglen buddsoddi cyfalaf yn union cyn ac ar ôl gosod y cyfyngiadau prisiau fel bo ansicrwyddau a goblygiadau'r adolygiad yn cael eu datrys. Y mae'r newyn a gwledda hyn mewn buddsoddi yn aneffeithiol i'r diwydiant a'i gyflenwyr a'i gontactwyr. Credwn y byddai pawb, gan gynnwys cwsmeriaid ar eu helw o gael rhaglen waith mwy sefydlog. Gan hynny yr ydym yn ymgynghori ynghylch dichonoldeb sefydlu , cyn diwedd 2003, y rhan helaethaf o anghenion gwelliannau'r cwmnïau, a thrwy hynny, eu cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2005-06.

Er fod angen i ni osod cyfyngiadau prisiau dros y pum mlynedd o 2005, y mae gofyn i ni wneud hynny mewn cyd-destun tymor hirach, o ystyried anghenion tebygol y diwydiant ymhell y tu hwnt i 2009-10 lle bont yn berthnasol ar hyn o bryd. Byddwn yn cynnal adolygiad arall yn 2009. Yr ydym yn gwahodd sylwadau ar hyn o bryd ar y materion y dylem eu hystyried wrth gloriannu a ddylai cyfnod yr adolygiad prisiau canlynol (o Ebrill 2010) fod rhyw gymaint yn hwy na phum mlynedd. Dichon y gallai cyfnod hwy leddfu ychydig ar yr ansicrwydd anochel a gysylltir â'r cyfnodau yn agos i adolygiadau prisiau ond yn erbyn hynny byddai'r anhawster o ddarogan yn gadarn am lawer blwyddyn i'r dyfodol.

Nid ydym mewn unrhyw sefyllfa yn y cyfnod rhagbaratoadol hwn i ddechrau darogan allbynnau yn nhelerau cyfyngiadau prisiau. Bydd gan maint y rhaglen gwariant cyfalaf angenrheidiol, cost cyfalaf, a'r cyfleoedd am effeithlonrwydd ddylanwad mawr ar yr allbwn. Bydd y cyfyngiadau yr hyn y mae gofyn iddynt fod er mwyn i bob cwmni gyflawni ei swyddogaethau, heb osod mwy o faich nag sydd ei angen ar gwsmeriaid. Ond byddai'n annoeth, yn wyneb y pwyseddau tebygol ar y rhan fwyaf o gwmnïau, i gwsmeriaid ddisgwyl gostyngiadau gwirioneddol mewn biliau o ganlyniad i'r cyfyngiadau prisiau newydd.

Philip Fletcher
Prif Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr

1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Bob pum mlynedd yr ydym yn gosod cyfyngiadau prisiau sydd yn galluogi cwmnïau a reolir yn dda i ariannu cyflenwad gwasanaethau, yn unol â safonau a gofynion perthnasol. Gosodwn gyfyngiad prisiau ar wahan i bob cwmni ar gyfer pob blwyddyn. Y mae'r cyfyngiadau prisiau hyn, a elwir ffactorau K, yn cyfyngu'r newid ar gyfartaledd mewn biliau bob blwyddyn (wedi caniatau am chwyddiant).

1.2 Byddwn yn gosod cyfyngiadau ar brisiau yn mis Tachwedd 2004 ar gyfer y pum mlynedd 2005-10. Y papur hwn yw'r prif ymgynghoriad cyntaf ar gyfer yr adolygiad hwnnw.

Amcanion yr adolygiad hwn

Amcanwn osod cyfyngiadau prisiau sydd yn cynrychioli'r gwerth gorau i gwsmeriaid ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Bwriadwn:

- Galluogi cwmnïau o dan reolaeth dda i ariannu cyflenwi gwasanaethau yn unol â'r safonau a gofynion perthnasol; a

- Cynnig anogaethau i gwmnïau i wella effeithlonrwydd a chyflenwad gwasanaeth.

Byddwn yn mabwysiadu proses effeithlon a thryloyw wrth gynnal yr adolygiad.

1.3 Wrth gynnal yr arolwg byddwn yn gweithredu pump egwyddor Gwell Rheolaeth Gweithlu, sef tryloywder, atebolrwydd , cymesuredd, cysondeb a thargedu.

1.4 Dyma ein trydydd adolygiad o gyfyngiadau prisiau. Yr ydym wedi adolygu yn ofalus pob elfen o'r methodoleg a ddefnyddwyd yn adolygiad 1999. Mewn nifer o feysydd yr ydym wedi coethi neu ddatblygu'r dull yn wyneb beirniadaethau o adolygiad 1999, neu fel ymateb i bynciau newydd. Yn y rhan fwyaf o feysydd penderfynasom nad oes angen unrhyw newidiadau. Yn gyffredinol y mae'r dull arfaethedig yn y papur hwn yn adeiladu ar adolygiad 1999 heb unrhyw newidiadau sylfaenol. Yn y cyd-destun hwn y mae'r materion mwyaf pwysig ar gyfer ymgynghoriad yn cael eu hamlygu yn y Crynodeb Gweithredol.

C1: A yw'r papur hwn yn cynnig y wybodaeth y mae ei angen arnynt er mwyn iddynt ddeall ein dull o ymdrin ag adolygiad 2004 i'r cwmnïau a rhai eraill â diddordeb? Os oes bylchau, beth ydynt?

C2: A adawyd unrhyw beth allan, neu a oes unrhyw gymlethdodau diangen yn ein dull? Nodwch hwy os gwelwch yn dda gyda'ch rhesymau a'ch argymhellion.

1.5 Disgwylir y bydd cyfartaledd bil cartref i gwsmeriaid yn 2004-05 yn £232 (ym mhrisiau Awst 2002). Dyma'r bil ar gyfartaledd led-led Lloegr a Chymru Mewn gwirionedd y mae biliau yn amrywio yn ddirfawr. O'r bil hwn, y mae 85% yn talu am gynnal gwasanaethau a 14% ar gyfer gwelliannau i'r amgylchedd ac ansawdd dŵr yfed a gyflwynwyd yn adolygiad 1999. Y mae'r gweddill ar gyfer sicrhau y gellir parhau i ddiwallu galwadau cwsmeriaid am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth, ac ar gyfer gwella safonau gwasanaeth.

1.6 Yn fras, y mae amserlen yr adolygiad fel a ganlyn.

Cam 1: Fframwaith a dulliau	
15 Hydref 2002	Ymgynghorwn ar ein dull o osod prisiau yn ' gosod cyfyngiadau prisiau ar gyfer 2005-10: Fframwaith a dulliau'.
Hydref 2002	Ymgynghorwn ar anghenion gwybodaeth cynllun busnes.
Tachwedd 2002	Cyhoeddwn ganlyniadau ein ymchwil marchnad ar y cyd.
Rhagfyr 2002	Gweinidogion yn cyhoeddi callawiau cychwynnol ar raglen ansawdd posibl ar gyfer 2005-10 a phynciau eraill.
14 Ionawr 2003	Ymgynghori ar 'Gosod cyfyngiadau prisiau ar gyfer 2005-10; Fframwaith a dullaiu' yn dod i ben.
Mawrth 2003	Cyhoeddwn ein ymarweddiad olaf tuag at yr adolygiad prisiau.
Cam 2: Asesiad o gynlluniau busnes drafft ac ymchwil marchnad	
Awst 2003	Cwmnïau yn cyflwyno eu cynlluniau busnes drafft i ni ac yn cyhoeddi crynodeb ohonynt, gan gynnwys eu cyfyngiadau prisiau arfaethedig.
Hydref 2003	Ymgynghorwn ar bynciau yn deillio o gynlluniau busnes drafft y cwmnïau.
Ionawr 2004	Gweinidogion yn rhoi eu canllawiau olaf ar y rhaglen ansawdd angenrheidiol.

Cam 3: Penderfyniadau a dyfarniadau	
Ebrill 2004	Cwmnïau yn cyflwyno eu cynlluniau busnes terfynol.
Gorffennaf 2004	Ymgynghorwn ar ein dyfarniadau drafft o'r cyfyngiadau prisiau y bydd eu hangen ar y cwmnïau.
Medi 2004	Gweinidogion yn cael cyfle i goethi eu dyfarniadau ar raglenni ansawdd angenrheidiol.
Tachwedd 2004	Cyhoeddwn y cyfyngiadau prisiau terfynol.
Cam 4: Gweithredu	
Ebrill 2005	Gweithredu'r cyfyngiadau prisiau newydd.

Fframwaith ar gyfer gosod cyfyngiadau prisiau

Gosodwn gyfyngiadau prisiau ar gyfer pob cwmni drwy ragdybio'r derbyniad y bydd yn debyg o fod ei angen i redeg ei fusnes mewn modd effeithlon. Byddwn yn asesau a yw hyn yn wahanol i'r derbyniad a dderbynia ar hyn o bryd . Enrhifwn y ffactor K , neu'r cyfyngiad pris, fel y newid canran y bydd ei angen mewn derbyniad ar gyfer bob blwyddyn (a chaniatau am chwyddiant).

1.7 Disgwyliwn i bob cwmni gynnal y gwastadau presennol o wasanaeth. Byddwn yn ystyried cynigion y cwmnïau am welliannau mewn gwasanaeth sy'n cynrychioli gwerth yr arian ac yn dangos cefnogaeth amlwg oddi wrth gwsmeriaid.

1.8 Byddwn yn dangos lleiafswm y gwasanaethau y disgwyliwn i'r cwmnïau eu cyflenwi y tu mewn i'r cyfyngiadau prisiau hyn o flwyddyn i flwyddyn. Cyfeirir at y gwasanaethau hyn yn gyffredin fel allbynnau. Nid ni sy'n rheoli'r cwmnïau. Unwaith y byddwn wedi gosod y cyfyngiadau prisiau, cyfrifoldeb y cwmnïau yw penderfynu sut i ddosrannu adnoddau i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Bydd y cwmnïau yn dangos yr allbynnau y byddant yn eu cyflenwi yn eu cynlluniau monitro. Fe'u cyhoeddir yn Ebrill 2005 unwaith y bydd y cyfyngiadau prisiau wedi eu gosod.

1.9 Yn ogystal â gosod cyfyngiadau prisiau, byddwn yn gosod cyfyngiadau ar daliadau isadeiledd y cwmnïau. Y maent yn cynrychioli'r costau a orfodir ar yr isadeiledd gyfan gan gysylltiadau newydd ac fe godir y tâl yn ogystal â chostau uniongyrchol gwneud y cysylltiadau hynny.

1.10 Byddwn yn gostwng risgiau rheoleiddio diangen drwy fod yn dryloyw a dangos ein methodoleg ymlaen llaw. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth , Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r rheolyddion ansawdd i leihau ansicrwyddau ynghylch y rhaglen ansawdd.

1.11 Wrth osod y cyfyngiadau prisiau ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd o 2005 hyd 2010, byddwn yn ystyried sut y maent yn cydweddu â'r cyd-destun tymor-hwy ac yn ystyried anghenion tebygol y diwydiant yn y dyfodol. Disgwyliwn i gwmnïau gyflwyno cynlluniau busnes sy'n cydweddu â sefydlogrwydd hir-dymor darpariaeth gwasanaethau a byddwn yn eu harchwilio yn ôl y cyd-destun hwn.

C3: Fel egwyddor cyffredinol byddwn yn gosod cyfyngiadau prisiau i ganiatau i gwmnïau i gyflenwi allbynnau y cytunwyd arnynt ac ni fyddwn yn cynnwys treuliau annisgwyl ar gyfer ansicrwyddau. A ydych yn cytuno?

1.13 Byddwn yn ystyried yn ofalus farn cwsmeriaid fel y'u canfaswyd drwy ein prosiect ymchwil marchnad ar y cyd , a lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn eu hadlewyrchu yn ein penderfyniadau. Cyhoeddir canlyniadau cyntaf y prosiect ymchwil marchnad ar y cyd yn Nhachwedd. Yr ydym yn cynnal yr ymchwil hwn gyda LlafarDŵr, Yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Arolygiaeth Dŵr Yfed, Natur Lloegr, Dolen Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth led-led Dŵr DU. Ei ddiben yw darparu i ni oll well crybwyll o safbwyntiau cwsmeriaid ar amrediad a chyflymder rhaglenni gwelliannau potensial yn ystod 2005-10. Byddwn yn cynnal ymchwil ar y cyd pellach yn Hydref 2003 ar bynciau sy'n deillio o gynlluniau busnes drafft y cwmnïau.

1.14 Bydd yr adolygiad nesaf yn 2009. Yr ydym yn ystyried a ddylem osod prisiau am gyfnodau hwy na phum mlynedd bryd hynny.

C4: Pa bynciau a ddylem gadw mewn cof wrth ystyried a ddylai adolygiad 2009 gynnwys cyfnod hwy na phum mlynedd?

Anogion ac effeithlonrwydd

1.15 Fel ag mewn adolygiadau prisiau blaenorol, byddwn yn archwilio y cyfleoedd am effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd cymharol pob cwmni. Byddwn yn gosod nodau effeithlonrwydd ar wahan i bob cwmni ar gyfer gweithredu a gwariant cyfalaf, a fydd yn gorfodi heriau caletach ar y cwmnïau hynny y penderfynwn eu bod lleiaf effeithlon. Dylasai'r nodau hyn sicrhau fod y cwmnïau sydd yn gweithredu waethaf yn dal i fyny â'r goreuon.

1.16 Byddwn yn comisiynu astudaieth i asesu'r cyfleoedd am effethlonrwydd y diwydiant yn y dyfodol. Cyhoeddir ein casgliadau yn gynnar yn 2004.

1.17 Cynigiwn barhau â'r strwythur o nodau effeithlonrwydd ac anogion a fabwysiadwyd yn adolygiad 1999 :

- rhagdybiaeth effeithlonrwydd cyffredinol unigol i bob cwmni;
- rhagdybiaethau dal i fyny mewn effeithlonrwydd unigol i gwmnïau llai effeithlon; a
- chyfnod pum mlynedd ar gyfer cyfundrefnau anogion treiglol.

C5: A fydd y dull hwn yn cynnig anogaeth digonol i gwmnïau geisio rhagori ar ein rhagdybiaethau?

1.18 Byddwn yn defnyddio modelau economedrig i asesu effeithlonrwydd gweithredu a chynnal cyfalaf cymharol y cwmnïau. Defnyddiwn y gost sylfaenol i fesur effeithlonrwydd caffaeliad y cwmnïau.

1.19 Fel ag yn adolygiad 1999, byddwn yn asesu cyflawniad cyffredinol pob cwmni wrth gyflenwi gwasanaethau ac yn cymhwyso prisiau y rhai gyda'r gwasanaethau gorau a'r rhai gwaethaf. Yr ydym wedi ymgynghori ynghylch ein dull ac wedi cymhwyso ein mesuriadau cyflawniad. Bydd graddfeydd ein cymhwysiadau prisiau rhwng +0.5% i - 1% o'r derbyniad , fel ag yn 1999, ond fel adwaith i sylwadau a dderbynwyd byddwn yn defnyddio ystod mwy graddedig o gymhwyso.

Cynnal gwasanaethau a defnyddioldeb i gwsmeriaid

1.20 Y mae cwmnïau yn gwario yn bennaf ar gostau dyddiol darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ac ar gynnal yr asedau sy'n cefnogi'r gwasanaethau hyn.

1.21 Ar y cam hwn y mae nifer o ansicrwyddau ynghylch costau gweithredu yn y dyfodol, er enghraifft: yr ardoll newid hinsawdd, costau trethi an-nheuluol, trwyddedau dadlwytho y Dyfrffyrdd Prydeinig a'r gost potensial o rentio llwybrau. Bydd rhai o'r pethau hyn yn cael eu datrys erbyn 2004. Ond ar gyfer y rhai sydd yn parhau i fod yn ansicr bydd gofyn i ni naill ai wneud rhagdybiaethau ynghylch gwastad y costau hyn a/neu ddefnyddio eitemau hysbysiedig a fydd yn caniatau i gwmnïau, neu y rheolyddwr , i geisio dyfarniadau dros-dro os yw newidiadau yn y costau yn croesi trothwyon arbennig.

1.22 Byddwn yn archwilio'n fanwl gynigion y cwmnïau dros gynnal eu hasedau. Yr oedd cynnal cyfalaf yn llyncu dros 40% o'r cyfan o fuddsoddiad a ragdybwyd yn adolygiad prisiau 1999. Byddwn yn amcanu at ganiatau i bob cwmni ddarpariaeth ddigonol iddo gynnal ei gyfundrefnau asedau er budd hir-dymor ei gwsmeriaid.

1.23 Y mae ein dulliau arfaethedig yn yr adolygiad hwn yn adeiladu ar yr hyn a wnaethom mewn adolygiadau cynharch. Yr ydym wedi gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer cynllunio anghenion buddsoddi i'r dyfodol. Yr ydym hefyd wedi gweithio gyda diwydiant a rheolyddion ansawdd ar ddatblygu mesurau defnyddioldeb newydd. Y mae gofyn i gwmnïau i wneud rhagor o waith i ddeall eu cyfundrefnau asedau a gwastadau gwariant sydd eu hangen i'w cynnal. Lle bo cwmnïau yn ceisio codi gwariant byddwn yn galw am dystiolaeth cefnogol cadarn.

1.24 Buom yn ymgymghori yn gynharach eleni ar ein dull bedwar-cam i asesu anghenion cynnal cyfalafol y dyfodol.

- Cynnal defnyddioldeb
- A yw'r dyfodol yn wahanol?
- Cyfleoedd am welliannau mewn effeithiolrwydd
- Effaith rhaglenni gwella ansawdd

1.25 Bydd y dull hwn yn darparu sail ar gyfer adolygiad sytemataidd, herio a dadansodi cynlluniau cwmnïau.

C6: A ydych yn cytuno y dylai ein dull pedwar cam tuag at gynnal cyfalafol gyda'r fframwaith gyffredin newydd at asesu risg alluogi cwmnïau i wneud achos cadarnach ar gyfer buddsoddi mewn cynnal cyfalafol cadarnach i'r dyfodol?

1.26 Yr ydym eisoes wedi ymgynghori ynghylch ein dull tuag at dibrisiant. Byddwn yn cymhwyso'r dull a gymerasom yn adolygiad 1999 i gymryd i ystyriaeth sylwadau'r Comisiwn Cystadleuaeth. Byddwn yn ystyried asedau mewn dwy ran:

- Y rhai sydd yn cyflenwi gwastadau cyfredol gwasanaeth ; a'r
- rhai sydd yn ymestyn y sylfaen asedau.

1.27 Fel ag yn 1999, bwriadwn gymharu tâl dibrisiant ar yr asedau gwasanaeth sylfaen gyda'r gwastadau o wariant cyfalafol i'r dyfodol y bydd ei angen i gynnal a gymryd lle'r asedau hynny. Pa fodd bynnag , fel yr awgrymodd y Comisiwn Cystadleuaeth, byddwn yn archwilio achosion unrhyw wahaniaeth rhyngddynt cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r tâl dibrisiant.

1.28 Ni ddibrisir asedau isadeiledd. Yn lle hynny, gosodir tâl blynyddol yn erbyn elwau'r cwmnïau i gynnwys costau blynyddoledig cynnal y gyfundrefn ar ei wastad cyfredol; gelwir hyn yn gyfrifeg adnewyddu isadeiledd. Fel ag yn adolygiad 1999 byddwn yn caniatau tâl adnewyddu isadeiledd cyfartal â chyfartaledd gwariant rhagdybiedig i gynnal y rhwydwaith dros 15 blynedd.

Lle bo cwmnïau yn credu fod hyn yn annigonol, arnynt hwy y mae'r cyfrifoldeb i ddarparu tystiolaeth fod angen codiad.

C7: A ydych yn cytuno lle bo cwmnïau yn methu esbonio gwahaniaethau rhwng dibrisiant a godir ar asedau sylfaen a gwariant cynhaliaeth y dylem gymhwyso'r taliad dibrisiant a ganiateir mewn cyfyngiadau prisiau?

Cynnal cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw

1.29 Y mae cynnal cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw yn ymhlyg yn nyletswyddau stadudol y cwmnïau. Y mae ganddynt ddyletswyddau i ateb y galw am eu gwasanaethau ac i gysylltu eiddo newydd â'u rhwydweithiau. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, y mae gofyn i gwmnïau wneud buddsoddiadau priodol. Y mae'r gost o gynnal y cydbwysedd rhwng cyflenwi a galw yn cyfateb i 1% o filiau cwsmeriaid.

1.30 Credwn fod yr egwyddorion bras a oedd yn sail i'n dull tuag at gynnal y cydbwysedd cyflenwad/galw yn 1999 yn parhau yn ddilys. Ond bwriadwn goethi ein dull mewn meysydd penodol gan ystyried datblygiadau ers hynny.

1.31 Bydd cyfyngiadau prisiau yn cynnwys rhagdybiaethau ynghylch costau mesuryddion. Ers Ebrill 2000 bu hawl gan gwsmeriaid teuluol i newid i daliad mesuryddol, heb orfod talu am osod y mesurydd. Mae'n rhaid i gyfyngiadau prisiau ganiatau am gostau cyfalaf a gweithredol ychwanegol a gyplysir â mesuryddio opsiynol. Dylai cwmnïau seilio arfaethiadau costau mesuryddio ar ragdybiaethau credadwy ynghylch cyflymder mesuryddio opsiynol.

1.32 Collfarnwyd ein tybiaeth fod costau tyfiant (ar gyfer dŵr a chaethffosiaeth) yn hunan-ariannu yn dilyn adolygiad 1999. Derbyniwn y gall bod achosion lle nad yw hynny'n gywir.

C8: A ydych yn cytuno y dylem ganiatau costau tyfiant nad ydynt yn hunan ariannu ond lle mae cwmnïau yn gwneud achos cadarn?

1.33 Yr oedd cyfyngiadau prisiau ar gyfer 2000-01 hyd 2004-05 yn cynnwys rhagdybiaethau ynghylch costau cyfalafol a gweithredol a seilwyd ar ein barn yghylch y derbyniad tebygol o fesuryddio opsiynol. Y mae'n debyg y bydd y canlyniadau yn wahanol i'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd gennym yn 1999. O ganlyniad, byddwn yn cymhwyso gwerthoedd cyfalafol rheolyddol agoriadol y cwmnïau.

Ymestyn Gwasanaethau

1.34 Y mae safonau gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth wedi gwella ers 1989. Y mae cwmnïau yn cyflenwi dŵr o safon uchel i gwsmeriaid ac yn ymdrin â dŵr gwastraff yn ôl safonau llym. Y mae safon y gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn ei dderbyn, megis y pwysedd y cyflenwir dŵr, hefyd wedi gwella. Parheir i ymestyn gwasanaethau i gwsmeriaid ac i'r amgylchedd. Disgwyliwn i gwmnïau gynllunio ar gyfer, a chyflawni, gofynion newydd a osodir mewn deddfwriaeth, polisi llywodraeth neu a elwir amdano gan gwsmeriaid.

1.35 Byddwn yn gosod cyfyngiadau prisiau a fydd yn ariannu gwelliannau pellach mewn ansawdd dŵr a'r amgylchedd. Gweidogion sydd yn penderfynnu ar amrediad ac amselen gwelliannau newydd mewn ansawdd. Yr ydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth a rheolyddwyr eraill er sicrhau y gwneir penderfyniadau yn wyneb dealltwriaeth eglur o'r goblygiadau i gwsmeriaid ac i eraill â diddordeb.

1.36 Disgwyliwn y bydd cynigion y rheolyddion ansawdd, ac a gadarnheir gan y Gweinidogion yn gost-effeithiol. Bydd Gweinidogion wedi derbyn fod manteision y cynlluniau yn cyfiawnhau'r canlyniadau i filiau cwsmeniaid.

1.37 Byddwn yn archwilio cynigion y cwmnïau am ymestyniadau mewn ansawdd. I ystyried cynlluniau, mae'n rhaid iddynt:

- fod yn ofyniad gan reolyddion ansawdd, ac wedi eu cadarnhau gan Weinidogion, neu fod yn ofyniad newydd o dan ddeddfwriaeth cyfredol;
- gyflenwi allbwn mesuradwy diffiniedig, sydd yn orfodadwy;
- fod ag amserlen diffiniedig glir a dyddiad penodol ar gyfer cyflenwi yn unol â rheoliadau neu ddeddfwriaeth arall;
- fod â gwelliannau i asedau diffiniedig neu newidiadau i ddulliau gweithredol i gyflenwi'r allbwn; a
- bod a chostau dynodedig- y mae'n ofynol fod yr ateb wedi ei herio a'i wirio gan gofnodwr y cwmni.

C9: A yw'r criteria ar gyfer gwelliannau hir-sefydlog hyn a gynhwisir yn y cyfyngiadau prisiau yn parhau i fod yn addas?

1.38 Lle bo'r ateb i broblem amgylcheddol yn anneglur, byddwn yn cymell cwmnïau i ystyried gwneud gwelliannau fesul cam fel y gellir adolygu cynnydd ac effeithlonrwydd.

1.39 Y mae lleihau'r perygl o orlifo o garthffosiaeth yn flaenoriaeth uchel dealladwy i gwsmeriaid, ond bydd angen i ni ystyried cynigion cwmnïau yn wyneb y costau a'r manteision.

C10: A ydych yn cytuno y dylai cwmnïau, fel man cychwyn trafodaeth , gynllunio i fynd i'r afael â phroblemau lle bo'r perygl o orlifo yn unwaith neu mwy nag unwaith mewn deg mlynedd?

1.40 Y mae cwmnïau a chyflenwyr i'r diwydiant yn dweud wrthym fod y cylch adolygu pum mlynedd yn creu ansicrwydd ynghylch yr adolygiad prisiau, fel bo cwmnïau yn methu ymrwymo i brosiectau hyd y bom wedi gosod y cyfyngiadau prisiau. Tueddai hyn i olygu fod gwariant cyfalafol yn is na'r cyfartaledd blynyddol ym mlynyddoedd cynnar cyfyngiadau prisiau newydd. Er mwyn lleihau'r ansicrwydd byddwn yn diffinio ar sail cynlluniau busnes drafft y cwmnïau, ac ymhell cyn ein dyfarniadau terfynol yn Nhachwedd 2004, y gwelliannau a'r buddsoddi y mae angen i'r cwmnïau eu gwneud yn 2005-06.

C11: A ddylasem geisio diffinio'r cyfan neu rai o gynlluniau cyfalafol y rhaglen ymestyn gwasanaethau ar gyfer 2005-06 cyn gosod y prisiau yn Nhachwedd 2004?

C12: A oes angen i ni ddiffinio'r rhaglen gyfan, neu, lle na fo hynny'n bosibl, a yw o gymorth i ni ddiffinio rhan o'r rhaglen hon?

C13: Ni allwn ragweld y gallwn wneud hyn cynTachwedd 2003. Erbyn pryd ar ôl hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud os yw i fod o gymorth?

1.41 Lle nas gorffennwyd cynlluniau a gynhwyswyd yn y rhaglen ar gyfer 2000-01 hyd 2004-05 mewn pryd neu lle y derbynwyd cynlluniau ers yr adolygiad yn 1999, byddwn yn cymhwyso gwerthoedd cyfalafol rheolyddol y cwmnïau. Y mae cwmnïau yn ennill graddfa o elw ar eu gwerth cyfalafol rheolyddol. Y mae gofyn i ni felly ei osod ar y gwastad cywir er mwyn sicrhau na chosbir cwmnïau na'u cwsmeriaid.

Darogan derbyniadau

1.42 Yn ogystal a rhagdybio costau i'r dyfodol i'r cwmnïau dŵr y mae'n rhaid i ni hefyd wneud rhagdybiaethau ynghylch derbyniadau i'r dyfodol. Yr ydym yn asesu y derbyniadau y bydd y cwmnïau yn eu derbyn, a chymryd nad oes newid i'r cyfyngiadau prisiau, ac yna 'rydym yn defnyddio rhagdybiaethau realistig ynghylch newidiadau yn y galw a throsglwydo i fesuryddion. Yn adolygiad 1999, gwnaethom ragdybiaethau ynghylch trosglwyddo i fesuryddio opsiynol yn y dyfodol ac effaith hyn ar dderbyniadau'r cwmnïau. Gallai

cwmnïau ofyn am adolygiad i gyfyngiadau prisiau os gosodwyd cyfanswm sylweddol mwy o fesuryddion nag a ddisgwylwyd gennym. Fel y digwyddodd, gosododd y rhan fwyaf o gwmnïau lai o fesuryddion opsiynol nag yr oeddem wedi ei ragdybio.

C14: Cynigiwn fod trwyddedau yn cael eu diwygio yn dilyn adolygiad 2004 fel y gellir cymhwyso cyfyngiadau prisiau i fyny neu i lawr er mwyn caniatau am or-amcangyfrif neu is-amcangyfrif arwyddocaol ynghylch niferoedd mesuryddion. A ydych yn cytuno?

Pynciau ariannol

1.43 Y mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau fod cwmnïau effeithlon yn gallu ariannu eu gweithgareddau, yn arbennig drwy sicrhau eu bod yn derbyn enillion digonol ar y cyfalaf y maent yn ei ddefnyddio. Bwriadwn ddilyn yr un drefn ag yn adolygiad 1999 ar gyfer y sylfaen cyfalaf, a'r gwerth cyfalafol rheolyddol.

1.44 Pery'r diwydiant dŵr i fod yn un o berygl isel mewn termau absoliwt ac o'i gymharu â diwydianau eraill. Byddwn yn ystyried y newidiadau i'r diwydiant ers adolygiad 1999. Un newid yw'r strwythur cyfalafol a fabwysiadwyd gan rai cwmnïau. Mater i'w reolaeth yw strwythur cwmni, nid i ni. Rhaid i ni fod yn foddlon fod cwsmeriaid wedi eu diogelu rhag unrhyw beryglon gormodol a bod cwmnïau yn parhau i allu cael defnydd o'r marchnadoedd cyfalaf. Byddwn yn ymdrin mewn modd gyson â'r cwmnïau i gyd.

1.45 Yr ydym wedi comisiynu dwy astudiaeth i'n cynorthwyo yn ein asesiad o gost cyfalaf. Y mae'r astudiaeth gyntaf yn ystyried yr hyn a fyddai'n strwythur cyfalafol cynaliadwy ar gyfer y cwmnïau dŵr. Y mae'r ail astudiaeth, a gomisiynwyd ar y cyd gyda rheolyddion sectoraidd eraill, yn un ehangach i gymharu sut y mae'r rheolyddion yn trafod risg mewn penderfyniadau gosod prisiau a beth yw'r dull cyfredol orau o amcangyfrif cost cyfalaf i wasanaethau cyhoeddus rheoledig.

1.46 Gan ddefnyddio'r dystiolaeth o'r astudiaethau hyn, byddwn yn ailasesu'r gost cyfalaf priodol y byddwn yn caniatau amdano mewn cyfyngiadau prisiau er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu disgwyliadau rhesymol y darparwyr cyfalaf. Dylai ganiatau i'r model ecwiti traddodiadol a strythwurau uchel-bwysau newydd i gydfodoli. Yr ydym yn ymgynghori yn y papur hwn ar yr angen am daliadau ychwanegol, megis taliad cwmnïau bychain, neu taliad dyled parhaus ar gyfer cwmnïau neilltuol. Tybiwn nad yw'n debyg y bydd yr olaf yn cael ei gyfiawnhau ond mewn amgylchiadau eithriadol.

C15: A yw cost cyfalafol drwy'r diwydiant yn ragdybiaeth dilys yn wyneb y stwythurau cyfalafol gwahanol sydd yn perthyn i'r diwydiant?

C16: A ydym yn defnyddio'r dull gywir i gynnal ansawdd credyd sefydlog i gwmnïau dŵr?

C17: A yw'r dulliau confensiynol a ddefnyddir i asesu'r gost o gyfalaf yn amgyffred y cyfan o'r peryglon priodol a wynebir gan gwmnïau dŵr?

C18: A oes angen mewn achosion neilltuol i barhau i ganiatau yn y cyfyngiadau prisiau am a) taliad cwmnïau bychain neu b) taliad dyled parhaus fel ag yn adolygiad 1999?

1.47 Yr ydym yn arfaethu i barhau i ddefnyddio dull cwmni-benodol tuag at treth o fewn cost cyfalaf. Golyga hyn fod cwsmeriaid yn talu yn eu biliau yr union wastad o drethi busnes yn unig. Byddai gweithredu fel arall yn or-hael i'r cwmnïau hynny sydd â strwythurau uchelbwysau. Byddwn yn cyflwyno ein cost cyfalaf fel ffigur cyn-dreth er mwyn hwyluso cymariaethau gyda rheolyddion eraill.

C19: A ydym yn iawn i ddefnyddio cost cyfalaf ar ôl treth gyda thaliadau treth cwmni-benodol (ond i gyflwyno hyn ar sail cyn-dreth er mwyn cysondeb)?

Ansicrwyddau i'r dyfodol

1.48 Yr ydym yn ymwybodol o nifer o ansicrwyddau na fyddant yn cael eu datrys, efallai cyn ein bod yn gwneud ein dyfarniadau terfynol yn mis Tachwedd 2004. Y maent yn cynnwys polisïau a deddfwriaeth y llywodraeth (e.e. gweithrediad cyffredinol o daliadau rent lonydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a newidiadau mewn trethi an-nomestig), effeithiau deddfwriaeth blaenorol (e.e. cyfradd trosglwyddo i fesuryddion opsiynol a chostau dyledion a chasglu dyledion), a goblygiadau cyfraith achosion (e.e. gorlifiad carthffos). Byddwn yn ymdrechu i wneud rhagdybiaethau realistig a chadarn. Ond lle bo ansicrwydd yn parhau , byddwn yn ystyried sut y dylid cymhwyso cyfyngiadau prisiau er mwyn caniatau am bob digwyddiad posibl.

1.49 Ar hyn o bryd , mewn amgylchiadau neilltuol, lle bo newidiadau rhwng adolygiadau prisiau, yr ydym yn eu hadlewyrchu drwy naill ai:

- cyfrif fyny/i lawr - ystyied newidiadau i gostau cyfalaf nad ydynt yn bitw yn yr adolygiad prisiau nesaf;

- penderfyniadau dros dro - gellir adolygu cyfyngiadau prisiau cwmni rhwng yr adolygiadau cyfnodol os yw'r newidiadau yn croesi'r trothwy perthnasedd (h.y.10% o drosiant y cwmni).

Bwriadwn barhau i ddefnyddio cyfrif i fyny/i lawr a phenderfyniadau dros dro er mwyn cynnwys newidiadau yn safonau ansawdd a phynciau penodedig eraill rhwng adolygiadau. Yr ydym wedi ymgynghori ar wahan ynghylch hyn ac wedi dod i'r casgliad , er gwaethaf amheuon y diwydiant , fod y broses gyfredol yn gweithio er lles y cwsmeriaid a'r cwmnïau.

C20: Byddwn yn gwneud y broses o gyfrif i fyny neu i lawr yn fwy tryloyw, ond nid ydym yn cynnig ei newid. Byddwn yn ailystyried yr amgylchiadau lle gellir sbarduno penderfyniad dros dro ond ni fwriadwn newid y broses. A ydych yn cytuno?

Gwybodaeth yn cefnogi gosod prisiau

1.50 Er mwyn gosod cyfyngiadau prisiau y mae angen llawer iawn o wybodaeth arnom oddi wrth y cwmnïau. Yn ddiweddarach y mis hwn byddwn yn ymgynghori ar ein gofynion gwybodaeth cynlluniau busnes ar gyfer y cwmnïau. Byddwn yn archwilio'r wybodaeth a gyflwynir gan y cwmnïau yn eu cynlluniau, yn gwneud cymariaethau ar draws yr oll gwmnïau ac yn cymharu'r wybodaeth hon gyda chanlyniadau ein hastudiaethau ein hunan. Defnyddiwn y wybodaeth a dderbyniwn oddi wrth gwmnïau yn ein model ariannol i enrhifo cyfyngiadau prisiau'r cwmnïau. Byddwn yn cyhoeddi ein model ariannol newydd , Aquarius 3 yn y dyfodol agos.

1.51 Bwriadwn ofyn i'r cwmnïau i gwblhau cynlluniau busnes ar gyfer tair senario:

- Strategaeth ffafredig y cwmni - bydd cwmnïau yn cyflwyno eu cynllun eu hunain, gan gynnwys yr hun y maent yn ei gredu yn rhesymol y mae eu cwsmeriaid yn ei ddymuno ac yn foddlon talu amdano.

- Senario cyfeiriadol 1: Pecyn A o welliannau ansawdd ac amgylcheddol gyda rhagdybiaethau gwastad cyfeiriadol ar bynciau allweddol penodol.

- Senario cyfeiriadol 2: Pecyn B o welliannau ansawdd ac amgylcheddol gyda rhagdybiaethau gwastad cyfeiriadol ar bynciau allweddol penodol.

Bydd Pecynau A a B yn ddewisiadau credadwy a realistig a fydd rhyngddynt yn adlewyrchu ystod lawn y pynciau y bydd Gweinidogion yn dymuno eu hystyried i'w cynnwys yn y cyfyngiadau prisiau.

1.52 Byddwn yn darparu gwastadau cyfeiriadol ar gyfer rhagdybiaethau allweddol neilltuol ar gyfer pob cwmni (e.e. cost cyfalaf ac effeithlonrwydd) y dylid eu defnyddio yn yr ail a'r drydedd senario hyn. Bydd hyn yn ein galluogi i

ddefnyddio cyflwyniadau'r cwmnïau yn uniongyrchol fel sail ymgynghoriad cyhoeddus a chymhariaeth yn hydref 2003. Byddwn yn darparu atborth o'u cynlluniau busnes drafft i'r cwmnïau fel paratoad i gynlluniau busnes terfynol.

C21: Bwriedir y dull senario i alluogi cwmnïau i ddinoethi'r holl faterion ar gyfer trafodaeth yn yr hydref 2003, cyn y bo Gweinidogion ac eraill mewn sefyllfa i gynnig canllawiau cyflawn. A ydych yn cytuno fod hon yn ddull ymarferol?

C22: Cynigiwn fod cwmnïau yn defnyddio 'gwastadau cyfeiriadol' ar gyfer nifer o ragdybiaethau allweddol er mwyn sicrhau fod eu cynlluniau busnes drafft yn gymaradwy. A ydych yn derbyn fod hwn yn gynnig ymarferol?